**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad: 13 Hydref 1999**

**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd - mecanweithiau ariannu**

Pwrpas

1. Gwahoddir y Pwyllgor Datblygu Economaidd i nodi:

Y berthynas rhwng ariannu Ewropeaidd, ariannu gan y Llywodraeth ac ariannu cyfatebol;

Elfennau'r hen ERDF a'r ERDF newydd ar gyfer blwyddyn 1 (2000-01).

**Crynodeb**

2. Mae'r papur yn disgrifio Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y gyllideb a'r trefniadau talu ar gyfer rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol; mae'n egluro'r berthynas rhwng arian y Comisiwn a gwariant cyhoeddus fel y'i diffinnir gan y Llywodraeth; ac mae'n pennu'r gofyn ariannol tebygol a ffynhonnell yr arian hwnnw ar gyfer blwyddyn 1.

**Amseru**

3. Cyflwynir y papur ar gais y Pwyllgor.

**Cyflwyniad**

4. Mae 'Ariannu Ewropeaidd' yn cwmpasu tair elfen:-

(i) Grantiau'r CE : arian y Comisiwn ei hun;

(ii) Gwariant cyhoeddus fel y'i diffinnir gan y Llywodraeth (darpariaeth yn Nherfyn Gwariant Adrannol y Cynulliad Cenedlaethol); a

(iii) Ariannu cyfatebol : elfennau o gostau project nad ydynt yn cael eu hariannu gan grantiau'r CE - arian y noddwr ei hun fel rheol.

**<u>Grant y CE</u>**

5. Mae dwy linyn i hwn -

- Ymrwymiadau
- Taliadau

6. Mae'r Comisiwn wedi'i gwneud yn glir ei fod yn disgwyl proffil cyson o **ymrwymiadau** dros gyfnod y Rhaglen. Mae Atodiad y Rheoliadau Ariannu Strwythurol (y Rheoliadau) yn pennu proffil cyllideb y Gymuned ar gyfer y Rhaglenni newydd fel a ganlyn -

| Cronfeydd Strwythurol (miliynau mewn euros - prisiau 1999) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 |
| 29,430 | 28,840 | 28,250 | 27,670 | 27,080 | 27,080 | 26,660 |

7. Dyma fydd proffil yr ymrwymiadau ar gyfer ardaloedd *<u>Amcan 1</u>* -

| Miliynau (euros) | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | Cyf' swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| De Efrog | 179.8 | 176.7 | 173.3 | 169.9 | 150.4 | 162.2 | 160.2 | 1172.5 |
| Gorllewin/ y Cymoedd | 284.3 | 279.3 | 274.0 | 268.6 | 237.7 | 256.4 | 253.1 | 1853.4 |
| (£m) | (187) | (184) | (180) | (177) | (157) | (169) | (167) | (1222) |
| Cernyw | 76.4 | 75.0 | 73.6 | 72.2 | 63.9 | 68.9 | 67.8 | 497.8 |
| Glannau Merswy | 204.5 | 201.0 | 197.1 | 193.3 | 171.0 | 184.5 | 181.9 | 1333.3 |
| | | | | | | | | |
| Cronfa berfformiad | | | | | 69.0 | 70.0 | 72.0 | 211.0 |

DS: Ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd, mae'r ffigur ar y rhes uchaf mewn euros, ac ar yr isaf mewn punnoedd. Y raddfa gyfnewid oedd 0.66 euro am bunt.

8. Yn Erthygl 31 y Rheoliadau, ceir y rheolau ar gyfer gwneud ymrwymiadau o'r gyllideb, ac mae ag a

wnelo Erthygl 31.2 (para. 2) â phroffil taliadau'r CE. Dywed:

'Bydd y Comisiwn yn datymrwymo unrhyw ran o ymrwymiad nad oes ernes wedi'i dalu ar ei gyfer neu ymrwymiad nad yw'r Comisiwn wedi derbyn cais derbyniol am daliad ar ei gyfer, fel y diffinnir hynny yn Erthgyl 32.3, erbyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl blwyddyn yr ymrwymiad ……..'

9. Nid yw'r rheolau hyn yn awgrymu bod taliadau yn cael eu clustnodi ar gyfer ymrwymiadau mewn unrhyw flwyddyn neilltuol. Mae Llywodraeth Prydain yn gweithio ar y dybiaeth y caiff y rheol hon ei bodloni cyn belled â bod y Comisiwn yn siwr bod yr holl geisiadau am daliadau, ynghyd ag unrhyw daliadau ar gyfrif, erbyn diwedd blwyddyn 3, yn gyfwerth o leiaf â lefel ymrwymiadau blwyddyn 1.

10. Mae'r rheol hon hefyd yn cyfeirio at 'yr ernes'. Dywed Erthygl 32.2 (para. 1) bod yr ernes yn gyfwerth â 7 y cant o gyfanswm cyfraniad y Gronfa Strwythurol. Awgryma hefyd y gellid rhannu'r ernes, mewn egwyddor, dros ddwy flwyddyn y gyllideb fan fwyaf, gan ddibynnu faint o arian cyllideb sydd ar gael.

11. Gan ddefnyddio proffil ymrwymiadau Amcan 1 a amlinellir ym mharagraff 7, mae hynny'n trosi i'r gofyn taliadau canlynol:

| £m | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 | Bl. 6 | Bl. 7 | Bl. 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymrwymiad | 187 | 184 | 180 | 177 | 157 | 169 | 167 | 1222 |
| Taliad ernes | 42.7 (3.5%) | 42.7 (3.5%) | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| Y lleiaf y gellid ei dalu (cyn pen y flwyddyn) | 144 (Bl. 3) | 141.3 (Bl. 4) | 180 (Bl. 5) | 177 (Bl. 6) | 157 (Bl. 7) | 169 (Bl. 8) | 167 (Bl. 9) | |
| % o'r ymrwymiad | 77.2% | 76.8% | 100% | 100% | 100% | 100% | 146% | |

***DS*: Nid proffil taliadau mo hwn ond yn hytrach y paramedrau y dylai proffil gael ei adeiladu o'i fewn.**

12. Pwyntiau i'w nodi:

- Bydd y Comisiwn yn dechrau datymrwymo os bydd unrhyw ran o ymrwymiad mewn blwyddyn dan sylw heb ei setlo trwy daliad ernes neu os na fydd y Comisiwn wedi derbyn cais derbyniol am daliad erbyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl blwyddyn yr ymrwymiad [*Erthygl 31.2 para. 2*];
- Telir yr ernes cyntaf ar gyfer Amcan 1 i gyfrif Tâlfeistr y Cynulliad Cenedlaethol pan fydd y Comisiwn yn gwneud ei ymrwymiad cyntaf {*Erthygl 32.2]*;
- Telir taliadau cyfamserol gan y Comisiwn mewn perthynas â gwariant a delir o dan y cronfeydd fel y'u hardystir gan yr awdurdod sy'n talu. Cyn belled ag y medrir, dylid cyflwyno ceisiadau am daliadau cyfamserol i'r Comisiwn mewn sypiau dair gwaith y flwyddyn. Ni ddylai'r cais diwethaf ddod i law'r Comisiwn ar ôl 31 Hydref [*Erthygl 32.3*].

**Gwariant Cyhoeddus – darpariaeth yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)**

13. O safbwynt rheoli cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol, nid lefel yr ymrwymiadau mewn blwyddyn benodol yw'r cwestiwn mawr ond lefel y taliadau y bydd gofyn eu gwneud i'r rheini sy'n derbyn grantiau, gan mai'r rhain fydd yn penderfynu ar lefel y gwariant cyhoeddus a fydd yn gorfod cael eu hymgorffori o fewn Terfyn Gwariant Adrannol y Cynulliad. Nid ar chwarae bach y mae trosi proffil taliadau y Comisiwn ei hun i dermau gwariant cyhoeddus. Nid yw grantiau'r CE a delir i gyfrif crog y Cynulliad yn cael ei ystyried yn wariant cyhoeddus tan iddo gael ei dynnu o'r cyfrif crog a'i dalu i noddwyr projectau. Bryd hynny, mae'r arian yn cael ei sgorio yn erbyn y DEL.

14. Dengys profiad blaenorol bod gwariant ar Amcan 1 (yn enwedig grantiau ERDF) mewn ardaloedd eraill yn tueddu i grynhoi'n araf. Er enghraifft, ar gyfer rhaglen gyfredol 1994-1999, yn Ynysoedd ac Ucheldiroedd yr Alban a Glannau Merswy, ni chafwyd gwariant ERDF o gwbl yn ystod y flwyddyn gyntaf. Yn achos Glannau Merswy, dim ond 15% o ddyraniad ERDF y flwyddyn a wariwyd yn yr ail flwyddyn, 45% yn y drydedd blwyddyn ac ni wnaeth y gwariant gyrraedd 90% tan flwyddyn 4.

15. Ar gyfer y Rhaglenni newydd, o ganlyniad i'r ddisgyblaeth ariannol lymach a fynnir gan y Comisiwn i geisio sicrhau lefel gyson o wariant, ynghyd â'r ffaith bod yng Nghymru baratoadau egnïol ar droed ar gyfer Amcan 1 ac yn sgil ymdrechion y Cynulliad, mae'n debyg y bydd yr arian yn cael ei godi'n gynt nag yn rhaglen 1994-99.

16. Ar wahân i'r ernes, ni fydd y Comisiwn yn ad-dalu'r awdurdod sy'n talu (y Cynulliad Cenedlaethol) onid oes gwariant wedi'i ysgwyddo a bod taliadau wedi'u gwneud. Felly, gan ddefnyddio'r amcanestyniadau diweddaraf (gweler tabl ym mharagraff 1), bydd gofyn sicrhau, fel rhan o broffil gwariant Amcan 1 (ar gyfer pob rhaglen ee ERDF, ESF, EAGGF ac ati), bod o leiaf £144.3 miliwn yn cael ei wario cyn pen blwyddyn 3.

17. Fodd bynnag, ni ellir bod yn gwbl sicr y bydd gwariant ar brojectau yn unffurf gan y gall pob math o bethau effeithio ar hynt project. Ar gyfer y flwyddyn nesaf (2000), rydym yn rhagdybio ymrwymiad o £187 miliwn fel ag a amlinellir ym mhara 11 uchod. Mae'n bwysig nodi yn y fan yma bod y Comisiwn yn gweithredu o fewn y flwyddyn galendr tra'n bod ninnau gweithio o fewn y flwyddyn ariannol. Ein hamcangyfrif diweddaraf yw mai £25 miliwn fydd gwariant Amcan 1 ym mlwyddyn ariannol 2000-01 ond ni fydd hyn yn cynnwys gwariant ar brojectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gan mai'r Adran Addysg a Chyflogaeth fydd yn gyfrifol am y rheini yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol. Ein hamcangyfrif diweddaraf o'r hyn y bydd gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gael hyd iddo ar gyfer gwariant ar raglenni newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf fydd £25 miliwn.

**Projectau dros ben o'r rhaglen ERDF gyfredol**

18. Gofynnodd y Pwyllgor yn arbennig am esboniad sut yr ariennid y projectau sydd dros ben o'r rhaglen ERDF bresennol. Mae gan y Cynulliad yr hawl, yn amodol ar gydsyniad y Trysorlys, i dynnu hyd at £46 miliwn o'r Gronfa Wrth Gefn, naill ai eleni neu mewn blynyddoedd dilynol, yn benodol ar gyfer taliadau ERDF. Mae'r arian hwn yn ychwanegol at benawdau'r flaen-gyllideb ac mae'n arian a gyllidwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond nad yw eto wedi'i wario. Gellir ei ddefnyddio felly i ategu llinell sylfaen y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf. Cafodd y llinell sylfaen honno ei gosod gan wybod y byddai'r arian hwn ar gael.

19. Ar gyfer 2000-2001, rhagwelir y bydd £50 miliwn ar gael o arian ERDF i'w wario ar y rhaglen gyfredol (er gan fod y rhaglen wastad wedi tanwario, mae peth amheuaeth o hyd a fydd modd sicrhau'r holl wariant hwnnw). £75 miliwn felly fydd y swm y bydd gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ei ariannu flwyddyn nesaf.

20. Ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, yn dilyn trafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, cytunodd y Trysorlys roi £35 miliwn yn ychwanegol i gyllideb y Swyddfa Gymreig er mwyn iddi allu ysgwyddo pwysau amhosib eu rheoli. Roedd yr arian hwn yn ychwanegol at yr hyn a oedd eisoes wedi'i ddyrannu yn unol â fformwla Barnett a chafodd ei wario yn ystod y flwyddyn ar ddarparu mwy o Gymorth Dewisol Rhanbarthol, ar fil cyffuriau'r NHS, y rhaglen ffyrdd ganolog ac ar Estyn. Mae cyllideb eleni a bil nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn ddigon hyblyg i allu ysgwyddo gwariant ar yr hen raglen a'r rhaglenni newydd yn unol â'r lefel a ragwelir, gan gymryd i ystyriaeth yr adnoddau sydd ar gael trwy'r llinell sylfaen, o arian clustnodedig yr ERDF a gariwyd ymlaen ac o adnoddau eraill a gariwyd ymlaen sydd ar gael i ategu cyllideb gyfan y flwyddyn nesaf.

21. Mae'r tabl isod yn disgrifio hyn:

| **Cyfnod y Rhaglen** | 1999-00<br>£m | 2000-2001<br>£m |
|---|---|---|
| | | |
| Rhaglenni cyn 2000 | 35 | 50 |
| Rhaglenni ar ôl 2000 | Dim | 25 |
| **Cyfanswm y gofyn** | **35** | **75** |
| I'w ariannu gan: | | |
| Darpariaeth y llinell sylfaen | 9 | 19 |
| ERDF a gariwyd ymlaen | 25 | 21 |

| | | |
|---|---|---|
| Eraill a gariwyd ymlaen | 1 | 35 |
| **Cyfanswm y ddarpariaeth sydd ar gael** | **35** | **75** |

<u>DS:</u>

- Nid yw’r tabl yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ESF (sef cyfrifoldeb yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar hyn o bryd)
- Nid yw’r tabl yn cynnwys arian cyfatebol.

22. Ar gyfer y dyfodol ar ôl 2001-02 ac wedi hynny, caiff y goblygiadau i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried fel rhan o’r Arolwg Gwariant nesaf. Mae swyddogion wedi dechrau trafod hyn gyda’r Trysorlys.

**Arian cyfatebol**

23. Mae dwy elfen i ariannu cyfatebol – y sector cyhoeddus a’r sector preifat.

24. Nid oes dim yn y Rheoliadau i ddweud o ble y dylai ariannu cyfatebol ddod. Mynegwyd y safbwynt yn y Comisiwn y dylai arian cyfatebol o’r sector cyhoeddus gynrychioli £1 am bob £1 a geir trwy grantiau’r CE gydag arian o’r sector cyhoeddus yn fonws ychwanegol: ni ddylid defnyddio arian cyfatebol o’r sector preifat yn lle arian cyfatebol o’r sector cyhoeddus.

25. O dan y Rheoliadau fodd bynnag, dim ond y lefelau lleiaf o ariannu cyfatebol a nodir. Mae Llywodraeth y DU o’r farn bod yr ariannu cyfatebol a’r rhaniad rhwng y sector cyhoeddus a’r sector preifat yn fater i’r Rhaglenni Rhanbarthol.

26. Ffynonellau traddodiadol arian cyfatebol o dan y Rhaglenni presennol yw awdurdodau lleol, asiantaethau fel Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, TECau, addysg bellach ac uwch, y sector gwirfoddol a’r sector preifat. Nid oes rheswm i gredu y bydd y ffynonellau hyn yn newid yn y dyfodol ond mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda'r Welsh European Programme Executive Cyf, sydd ar hyn o bryd yn gweinyddu’r Rhaglenni ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, i gael darlun manylach a llawnach o ffynonellau ariannu cyfatebol. Cyn gynted ag y daw’r wybodaeth honno i law, fe’i rhoddir i’r Pwyllgor.

27. Rhagwelir y bydd arian cyfatebol digonol ar gael gan noddwyr ar gyfer 2000-01 i dalu am y projectau y disgwylir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn honno. Wedi hynny, ystyrir y materion yng nghyd-destun yr Arolwg Gwariant nesaf.

**Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd**

28. Ar hyn o bryd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy’n gweinyddu’r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yng Nghymru ond yr Adran Gyflogaeth ac Addysg sy’n gyfrifol am daliadau. Hwy felly sy’n ysgwyddo’r

ddarpariaeth gwariant cyhoeddus. Mae dadleuon gweithredol o blaid trosglwyddo'r cyfrifoldeb amdani i'r Cynulliad Cenedlaethol rywdro yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu ymrwymiad ychwanegol sylweddol, yn bennaf o ran ariannu taliadau ond hefyd o ran y baich gweinyddol a chyfrifo. Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n trafod â'r Adran Gyflogaeth ac Addysg pa delerau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau fyddai'n dderbyniol i'r Adran Gyflogaeth ac Addysg a'r Cynulliad Cenedlaethol.